**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys**

**Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, 19 Rhagfyr 2019**

**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 2. Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019 yn gywir. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

## 3. Diweddariad ynghylch y Bil a'r grwpiau gorchwyl a gorffen

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ac ynghylch cynnydd y grwpiau gorchwyl a gorffen eraill. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y grŵp ei bod yn cyhoeddi llythyr newyddion rheolaidd sy'n rhoi diweddariadau ynghylch y Bil. Byddai'r ddolen gyswllt ar gyfer cofrestru i gael y llythyr newyddion yn cael ei hanfon at aelodau'r grŵp.

## 4. Seilwaith presennol ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a Chynlluniau Dargyfeirio yng Nghymru

Bu'r grŵp yn trafod trosolwg o gynlluniau dargyfeirio sydd ar waith ym mhob un o'r pedwar heddlu sydd yng Nghymru, a oedd wedi'i lunio ar sail y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfodydd cynharach y grŵp. Cafodd gwybodaeth fanylach am y broses ddargyfeirio yn ardaloedd Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Dyfed-Powys ei thrafod hefyd. Cytunwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymweld ag ardal pob un o'r heddluoedd er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau a'r prosesau dargyfeirio cyn cael trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.

## 5. Egwyddorion sylfaenol ar gyfer cynllun dargyfeirio

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar egwyddorion sylfaenol ar gyfer cynllun dargyfeirio. Roedd y grŵp yn gefnogol at ei gilydd i fwriad cyffredinol yr egwyddorion. Cytunwyd y dylai'r egwyddorion gael eu trafod ymhellach yn rhan o ymweliadau swyddogion Llywodraeth Cymru â heddluoedd unigol i drafod cynlluniau dargyfeirio.

## 6. Trafod opsiynau ar gyfer cynlluniau dargyfeirio

Arweiniodd Uned Gyswllt yr Heddlu drafodaeth ynghylch opsiynau posibl ar gyfer cynllun dargyfeirio. Roedd yn cynnwys trafodaeth fanwl ynghylch manteision ac anfanteision posibl gwahanol opsiynau, ac yn adeiladu ar y gwaith a wnaed mewn cyfarfodydd cynharach i'w nodi. Dyma'r chwe opsiwn a ystyriwyd:

- Opsiwn 1 – Defnyddio ymyriadau rhianta sy'n bodoli eisoes, a gaiff eu gweithredu gan ddarparwr cenedlaethol neu nifer o ddarparwyr ar draws y wlad;

- Opsiwn 2 – Datblygu cynllun dargyfeirio wedi'i deilwra, sy'n debyg i fodel Checkpoint neu'r Cynllun Braenaru i Fenywod;
- Opsiwn 3 – Cyfeirio pobl at gynllun dargyfeirio sy'n bodoli eisoes, megis y Cynllun Braenaru i Fenywod neu Checkpoint
- Opsiwn 4 – Cyfeirio pobl at gynllun cymorth i deuluoedd, sy'n bodoli eisoes, megis Teuluoedd yn Gyntaf
- Opsiwn 5 – Datblygu cwrs wedi'i deilwra a allai gynnwys elfen o addysg am rianta cadarnhaol a rheoli ymddygiad;
- Opsiwn 6 – Cyfuniad o opsiwn 3 ac opsiwn 5.

## 7. Rhaglenni rhianta

Yn y cyfarfod ym mis Medi, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried rhaglenni rhianta sy'n bodoli eisoes ac ystyried a fyddai unrhyw un o'r rheini yn addas i'w datblygu fel cwrs rhianta wedi'i deilwra a fyddai'n rhan o gynllun dargyfeirio.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fanylion am raglenni rhianta a gymerwyd o Ganllawiau Llywodraeth Cymru: Cymorth wrth Rianta. Rhoddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o gefndir rhaglenni rhianta. Cytunodd y grŵp y byddai angen i unrhyw gwrs rhianta ymdrin â'r anghenion o ran cymorth rhianta sydd gan rieni plant o bob oed.

At hynny, dylai'r gwaith o ddatblygu unrhyw ymyriad rhianta ystyried yr anghenion amrywiol sydd gan rieni.

## 8. Sylwadau clo ac unrhyw fater arall

Bydd y cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ar **19 Mawrth 2020** a **15 Mehefin 2020**. Mae'r lleoliadau i'w cadarnhau.